



SWIM WALES
NOFIO CYMRU


# Aquatic Club **Development Fund**

# **Cronfa Gymorth** Clybiau Dyfrol





# Nofio Cymru Cronfa Datblygu Clwb Dyfrol




## Beth yw'r gronfa?

- Bydd y gronfa yn darparu cymorth ariannol £250-£2,500 ar gyfer ystod eang o brosiectau clybiau. Bydd angen cyfraniad o 10% o gost gyflawn y prosiect gan y clybiau.
- Bydd Nofio Cymru yn rhoi 90% o'u cyfraniad ymlaen llaw a'r 10% terfynol yn ôl eu disgresiwn (trwy gydol neu ar ddiwedd y prosiect) yn ddibynnol ar gynnydd.
- Cyfanswm gwerth y gronfa yw £50,000.

## Beth yw'r angen am y gronfa?

Wrth i weithgareddau dyfrol barhau i adfer ar ôl y pandemig, mae'r argyfyngau egni a chostau byw wedi cyflwyno heriau newydd ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae llawer o byllau yn profi cynnydd mewn prisiau dros 300% ac mae'r costau hyn gan amlaf yn cael eu pasio at ddefnyddiwyr. Mae Nofio Cymru yn lansio'r gronfa hon er mwyn cynorthwyo clybiau i oroesi'r argyfyngau hyn ac adeiladu sylfaen gadarn y gallent ffynnu oddi arni yn y dyfodol.

## Sut y byddwn yn darparu'r gronfa?

Byddwn yn cyflwyno proses ymgeisio syml ond rhyngweithiol, a fydd yn cynnwys sesiynau holi ac ateb, fideos 'sut i wneud', tudalennau cwestiynau cyffredin a mwy.

AQUATICS FOR EVERYONE FOR LIFE

# Meini Prawf a Chymhwysedd

- Gall Glybiau Dyfrol Nofio Cymru roi tystiolaeth o ofyniad llywodraethu o fewn canllawiau Nofio Cymru:
  - Cyfansoddiad wedi ei arwyddo a'i uwchlwytho i JustGo
  - Cyfrifon dilys wedi eu huwchlwytho i JustGo o fewn y 12 mis diwethaf
  - Pwyllgor Rheoli ar waith gydag aelodaeth weithredol: Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd
  - Swyddog les yn ei le gydag aelodaeth weithredol
  - Cynllun Datblygu Clwb wedi'i uwchlwytho i JustGo
  - Wedi cwblhau Archwiliad Clwb Nofio Cymru
  - Rhaid i geisiadau fod wedi eu cefnogi gan y Pwyllgor Rheoli (a'r Prif Hyfforddwr os mae'r prosiect yn cynnwys hyfforddiant pwll neu dir)
- Rhaid bod gan glybiau'r gallu i gyfrannu 10% o gost gyflawn y prosiect
- Ymrwymo i roi tystiolaeth o wariant a chyflwyno adroddiadau am brosiect(au)
- Os oes cyllid ar gael ar gyfer y prosiect(au) ar gael drwy ffynhonellau eraill, rhaid i glybiau brofi bod yr opsiwn hwn eisoes wedi ei archwilio a'i gysidro




AQUATICS FOR EVERYONE FOR LIFE

# Meysydd lle ariennir prosiectau

Bydd y gronfa wedi llunio ar gyfer pedwar maes strategol gyda’r nod o gynyddu darpariaeth ddyfrol ledled Cymru:

| | |
|---|---|
| **Cynyddu’r apêl am Glybiau Dyfrol**<br><br>Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid, ysgolion, grwpiau cymdeithasol, sefydliadau a chwaraeon eraill er mwyn cynnig a rhoi apêl i weithgareddau dyfrol a chynnig mentrau newydd. | **Datblygu llwybrau cynhwysol**<br><br>Datblygu llwybrau anabledd, cyfranogiad a chystadleuaeth a hefyd arloesedd er mwyn sicrhau gweithgaredd rhyngweithiol a chystadleuol i bawb. Cydweithio gyda phartneriaid a fydd yn arwain at fentrau sy’n creu llwybrau sy’n deillio o Fframwaith Dysgu Nofio Cymru. |
| **Cynyddu nifer o aelodau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau**<br><br>Cynnig mwy o weithgareddau amrywiol, a sesiynau newydd, gan hyrwyddo cynhwysiad yn effeithiol i ystod eang o grwpiau a chymunedau sydd heb eu gwasanaethu cystal. | **Gwella ansawdd y rhaglen**<br><br>Gweithredu drwy arloesedd er mwyn cynyddu cyfleoedd a rhoi cymorth drwy hyfforddiant, cyfathrebu, gweithgareddau ychwanegol, datblygiad gweithle neu dechnoleg greadigol. |

Rhaid i glybiau rhoi tystiolaeth ar sut fydd y prosiect(au) yn gwella dyfodol y clwb mewn un o’r meysydd a ddisgrifiwyd uchod (neu faes cysylltiedig).




AQUATICS FOR EVERYONE FOR LIFE

# Syniadau ac enghreifftiau o brosiectau

- Deunydd marchnata er mwyn cyfathrebu ag aelodau posib
- Cyflwyno sesiynau treialu trosiannol (e.e. tocynnau rhodd er mwyn treialu/ sesiynau ‘rhowch gynnig arni’)
- Cyfleoedd cystadlu cynnar ar gyfer llwybrau cystadleuol
- Cyfleoedd cystadlu tîm ar gyfer llwybrau cystadleuol
- Mabolgampau amlddyfrol/gwyliau dyfrol/digwyddiadau rhoi cynnig arni
- Gwobrwyo a rhoi cydnabyddiaeth i wirfoddolwyr eich clybiau am eu cefnogaeth tuag at weithgareddau’r clybiau
- Prynu offer cymunedol a fyddai’n gwella ansawdd rhaglen (e.e. byrddau gwyn/ technoleg er mwyn dangos sgiliau a thechnegau nofio)
- Cyfleoedd hyfforddi arloesol/ar y tir (‘dim ond ychwanegu dŵr’)
- Datblygiad o raglenni cystadleuol cynnar (e.e. Dysgu Nofio Cymru)
- Cyrsiau, Cymwysterau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) er mwyn elwa;
    - Hyfforddiant (o bob disgyblaeth; ar y tir ac yn y pwll)
    - Diogelu a lles
    - Rheoli tîm
    - Llywodraethu




AQUATICS FOR EVERYONE FOR LIFE

# Llinell amser

21 Hydref 2023: Lansiad y Gronfa / 21st October 2023: Fund launch

Hydref 2023 – Rhagfyr 2023: Cymorth gyda cheisiadau sydd ar gael

Hydref 2023 – Rhagfyr 2023: Cymorth gyda cheisiadau sydd ar gael

17 Ionawr 2024: Penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau'n cael ei gyfathrebu i glybiau

O 19 Ionawr 2024: 90% o'r arian yn cael ei ryddhau i glybiau erbyn y dyddiad hwn yn unol â chynnydd y prosiect

4 Mawrth 2024 ymlaen: Straeon llwyddiant a chipolwg ar brosiectau

29 Mawrth 2024: 10% o'r arian sy'n weddill yn cael ei ryddhau erbyn y dyddiad hwn




AQUATICS FOR EVERYONE FOR LIFE

# Diolch Yn Fawr

